

Cynllun Adnewyddu Pont Afon Dyfrdwy'r A494 – Ymgynghoriad cyhoeddus ar Orchmynion drafft

A494 River Dee Bridge Replacement Scheme – draft Orders Public Consultation




Croeso

Croeso i'r ymgynghoriad ar y Gorchmynion drafft ar gyfer Cynllun Adnewyddu Pont Afon Dyfrdwy yr A494 (y “Cynllun”). Nod y ymgynghoriad hon yw rhoi cyfle i unrhyw berson neu fudiad wrthwynebu, cefnogi neu awgrymu opsiynau eraill yng nghyswllt dogfennau gorchmynion drafft y Cynllun. Fel rhan o'r broses statudol, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried yr holl ymatebion i'r Gorchmynion drafft ac yna'n penderfynu a ddylid cynnal Ymchwiliad Cyhoeddus Lleol.

Cefndir

Mae Pont Afon Dyfrdwy ar yr A494 yn gysylltiad hanfodol ar gyfer traffig sy'n croesi'r ffin rhwng gogledd Cymru, gogledd-orllewin Lloegr a thu hwnt, gan gysylltu pobl, cymunedau a busnesau. Mae'r bont yn cludo tua 70,000 o gerbydau bob dydd. Mae'r holl draffig hwn yn golygu y byddai cau'r bont i adnewyddu'r darnau sydd wedi dirywio yn amharu'n ddifrifol ar bobl sy'n teithio yn yr ardal a byddai'n cael effaith niweidiol ar yr economi yng ngogledd Cymru. Mae'r angen am bont newydd yn cael ei ysgogi gan gyflwr gwael saernïaeth dec presennol y bont. Mae'r archwiliadau a'r gwaith monitro hyd yma wedi dod i'r casgliad bod amlder y gwaith atgyweirio a'r risg y bydd angen gwneud gwaith ymyrryd ac atgyweirio mawr, a fyddai'n golygu cau'r bont, yn cynyddu o un flwyddyn i'r llall. Os na wneir dim byd, bydd y bont yn dal i ddirywio, ac fe allai hynny olygu gorfod defnyddio mesurau fel cyfyngiadau pwysau a chau lonydd yn y tymor byr i'r tymor canolig gan arwain at gau yn y tymor canolig i'r tymor hir.



● Map yn dangos lleoliad Pont Afon Dyfrdwy'r A494 rhwng Cymru a Lloegr, a'r prif ffyrdd lleol
● Map showing the A494 River Dee Bridge location between Wales and England and major local roads



● Map yn dangos lleoliad Pont Afon Dyfrdwy'r A494 rhwng Queensferry a Garden City
● Map showing the A494 River Dee Bridge location between Queensferry and Garden City

Welcome

Welcome to the draft Orders consultation for the A494 River Dee Bridge Replacement Scheme (the “Scheme”). The aim of this consultation is to provide the opportunity for any person or organisation to object, support or suggest alternatives to the Scheme draft Order documents. As part of the Statutory process, the Welsh Government will consider all responses to the draft Orders and then decide whether to hold a Public Local Inquiry

Background

The A494 River Dee Bridge provides a vital connection for cross-border traffic between north Wales, the north-west of England and beyond, connecting people, communities and businesses. The bridge carries approximately 70,000 vehicles per day. This volume of traffic means that closure of the bridge to replace the deteriorated parts would cause severe disruption for people travelling in the area and adversely impact the economy in north Wales. The need for a new bridge is driven by the poor structural condition of the existing bridge deck. The inspections and monitoring to date have concluded that the frequency of repairs and the risk of major repair and intervention requiring the closure of the bridge is growing year-on-year. If nothing is done, the bridge will continue to deteriorate which may require measures such as weight restrictions and lane closures in the short to medium term and result in closure in the medium to long term.

Datblygu ateb

Developing a solution



	Amcan Cynllunio Trafnidiaeth	Beth mae hyn yn ei olygu?
	Transport Planning Objective	What does this mean?
	- Cynnal cysylltedd coridor strategol yr A494 drwy fynd i'r afael â phont afon Dyfrdwy sydd wedi cyrraedd diwedd ei hoes. - Maintain connectivity of the A494 strategic corridor by addressing the life expired River Dee Bridge.	- Cadw'r A494 ar agor drwy ddatrys y problemau gyda Phont bresennol Afon Dyfrdwy. - Keep the A494 open by addressing the problems with the current River Dee Bridge.
	- Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i newid dulliau teithio drwy wella'r ddarpariaeth o ddulliau teithio amgen. - Maximise opportunities for modal shift through better provision for alternative modes.	- Ei gwneud hi'n haws i bobl ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus, neu gerdded, olwyno a beicio. - Make it easier for people to travel by public transport, walking, wheeling and cycling.
	- Lleihau cyfanswm allyriadau carbon y cynllun drwy roi mesurau lleihau carbon ar waith wrth ddylunio, adeiladu a gweithredu. - Minimise Scheme whole life carbon emissions through applying carbon reduction measures to design, construction and operation.	- Lleihau faint o garbon sy'n cael ei greu yn ystod y gwaith adeiladu a phan fydd y Cynllun yn weithredol. - Reduce how much carbon is created during construction and when the Scheme is in use.
	- Cynnal a chadw'r amgylchedd lleol, a'i ehangu drwy sicrhau budd net i fioamrywiaeth yn y tymor hir. - Maintain and enhance the local environment by securing long term net benefit for biodiversity.	- Cadw a gwella'r amgylchedd lleol gyda mwy o wyrddni a gwarchod cynefinoedd. - Keep and improve the local environment with more greenery and protection of habitats.
	- Gwella cadernid ar goridor yr A494 drwy leihau effeithiau digwyddiadau a damweiniau a chynyddu diogelwch ar gyfer defnyddwyr y ffordd a staff cynnal a chadw. - Improve resilience on the A494 corridor by minimising the impacts of incidents and accidents and enhancing safety for road users and maintenance personnel.	- Lleihau oedi os oes damweiniau a gwneud y ffordd hon yn saffach. - Reduce delays if there are accidents and make this road safer.
	- Cynnal cysylltedd ar hyd coridor strategol yr A494 yn ystod y cyfnod adeiladu er mwyn lleihau'r effaith ar breswylwyr, busnesau, a thraffig lleol a strategol. - Maintain connectivity along the A494 strategic corridor during construction to minimise impacts on residents, businesses, strategic and local traffic.	- Cadw'r ffordd bresennol ar agor a lleihau effaith y gwaith adeiladu gymaint â phosib. - Keep the existing road open while reducing construction impacts where possible.

Yn 2018, aethon ni ati i gynnal arfarniad a edrychai ar yr opsiynau ar gyfer pont newydd yn lle Pont Afon Dyfrdwy'r A494. Yn dilyn ymateb Llywodraeth Cymru i'r Adolygiad Ffyrdd ym mis Chwefror 2023, rydyn ni wedi adolygu Amcanion Cynllunio Trafnidiaeth y Cynllun er mwyn i'r rheini gyd-fynd â'r pedwar prawf newydd ar gyfer adeiladu ffyrdd.

Arfarnwyd y Cynllun drachefn gan ddefnyddio Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2024. Ymhlith yr ystyriaethau sy'n berthnasol i'r Cynllun y mae peidio â chreu traffig ychwanegol, lleihau'r defnydd o garbon cymaint ag y bo modd, ac annog pobl i newid eu dulliau teithio.

Rydym wedi symud ymlaen o Gam 0 WelTAG (Achos dros Newid) ac wedi cwblhau Cam 3 WelTAG (Achos Busnes Llawn). Mae Cam 3 WelTAG yn golygu datblygu'r Cynllun i bwynt lle mae'n barod i'w weithredu, a llunio achos busnes manwl i'w ategu.

Mae'r Cynllun wedi'i leoli mewn ardal adeiledig a bydd angen rhoi sylw i sawl elfen sy'n cyfyngu'n sylweddol arno. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cyfyngiadau amgylcheddol:** mae afon Dyfrdwy yn Ardal Cadwraeth Arbennig ac yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.
- Tai a busnesau:** ceir eiddo preswyl a busnesau gerllaw'r bont ar ddwy ochr y ffordd.
- Cyfyngiadau adeiladu:** lleihau effaith y cynllun yn ystod y gwaith adeiladu, e.e. cadw'r traffig presennol i lifo ar yr A494.
- Cyfleustodau:** y ceblau a'r pibellau trydan, dŵr, carthffosiaeth, nwy a chyfathrebu sy'n rhan o ardal y Cynllun ar hyn o bryd.
- Draen Queensferry:** y brif afon sy'n llifo drwy ardal y Cynllun.
- Lleoliad arfaethedig y gwaith adeiladu:** gweithio yn afon Dyfrdwy a drosti, a honno'n ddyfrffordd sy'n cael ei defnyddio i fordwyo.
- Asedau dŵr:** mae gwaith trin dŵr gerllaw'r Cynllun, a hwnnw'n weithredol.
- Rheilffordd:** mae lein reilffordd arfordir y gogledd yn mynd drwy ardal y Cynllun.

In 2018 we undertook an appraisal that looked at options to replace the A494 River Dee Bridge. Following the Welsh Government's response to the Roads Review in February 2023 we have reviewed the Scheme Transport Planning Objectives to align with the new four road building tests.

The Scheme was re-appraised using the updated Welsh Transport Appraisal Guidance (WelTAG) published in February 2024. Considerations for the Scheme include not creating additional traffic, minimising carbon and encouraging modal shift.

We have progressed from WelTAG Stage 0 (Case for Change) and recently completed WelTAG Stage 3 (Full Business Case). WelTAG Stage 3 involves developing the Scheme to a point where it is ready for implementation, supported by a detailed business case.

The Scheme is located in a built-up area and has challenging constraints that will need to be considered. These include:

- Environmental:** the River Dee is designated as a Special Area of Conservation (SAC) and Site of Special Scientific Interest (SSSI).
- Houses and businesses:** existing residential properties and business near the bridge on both sides of the road.
- Construction:** minimising the impact of the scheme during construction e.g. maintaining existing traffic flows on the A494.
- Utilities:** existing electricity, water, sewage, gas and communication cables and pipes running through the Scheme.
- Queensferry Drain:** main river which flows through the Scheme.
- Proposed construction location:** working in and over the river Dee which is a navigable waterway.
- Water assets:** operational water treatment works adjacent to the Scheme.
- Railway line:** north Wales coast railway line which runs through the Scheme.

Datblygu opsiynau

Option development



Adnabod opsiynau

Drwy ein dealltwriaeth o’r problemau presennol a heriau’r dyfodol, aethon ni ati i ganfod opsiynau posibl sy’n ceisio cyflawni amcanion y Cynllun.

Mae’r opsiynau ar gyfer y Cynllun wedi’u datblygu gan ddefnyddio WelTAG, sef arweiniad Llywodraeth Cymru ar gyfer cynllunio ac arfarnu yn y maes trafnidiaeth. Mae WelTAG yn cyflwyno dull strwythuredig o gynllunio prosiectau, a hwnnw’n dechrau drwy edrych ar yr achos dros newid cyn symud drwy gyfres o gamau rhesymegol wrth ddatblygu prosiect, ei gyflawni, a’i adolygu ar y diwedd. Mae’r camau hyn yn cynnwys canfod amcanion, dewis a dethol opsiynau, a datblygu achos busnes o blaid yr opsiwn sydd wedi’i ddewis. Mae’r camau hefyd yn cynnwys monitro ac arfarnu’r prosiect maes o law

Gwneud dim byd

Byddai’r opsiwn ‘gwneud dim byd’ yn golygu bod y problemau strwythurol yn parhau, a byddai hyn yn arwain yn y pen draw at sefyllfa lle byddai Pont Afon Dyfrdwy yn dirywio. Byddai’n arwain at nifer o effeithiau negyddol ar yr economi ranbarthol a chenedlaethol, yn sgil tarfu ar lif traffig strategol, gan gynnwys cludo nwyddau i’r gogledd ac o’r gogledd.

Byddai’r senario ‘gwneud dim byd’ yn arwain at gyfyngu’r pwysau y mae modd i’r bont ei gario, at gau lonydd, ac at y posibilrwydd o gau Pont Afon Dyfrdwy yn llwyr, a fyddai’n achosi tarfu, tagfeydd ac oedi sylweddol i’r cyhoedd, i fusnesau ac i gerbydau sy’n cludo nwyddau.

Byddai cau’r A494 dros afon Dyfrdwy yn creu mwy o draffig ar lwybrau eraill, na fyddai’n gallu dygymod â’r traffig ychwanegol. Efallai y bydd hyn yn cael effaith negyddol ar gerddwyr a beicwyr; yn effeithio ar ddiogelwch y ffyrdd, ansawdd yr aer a llygredd sŵn; ac yn tarfu ar lwybrau trafnidiaeth gyhoeddus.



● Pont Afon Dyfrdwy’r A494 ar hyn o bryd (tua’r gogledd)
● Current A494 River Dee Bridge (northbound)

Gwneud y lleiafswm

Byddai’r opsiwn ‘Gwneud y lleiafswm’ yn golygu adnewyddu’r bont bresennol. Byddai hyn yn golygu tynnu dec y bont yn llwyr oddi yno, ailadeiladu’r dec, disodli cyfosodiadau’r bont a’r ffyrdd tuag ati, ac atgyweirio trawstiau a phileri afon y bont.

I wneud y gwaith adnewyddu hwn, byddai angen cau’r A494 yn llwyr i draffig tua’r dwyrain am gyfnod sylweddol, tra byddai angen cyfyngu ar led y ffordd a chyflymder y traffig tua’r gorllewin. Byddai cyfnod sylweddol arall wedyn lle byddai’r traffig yn teithio mewn un lôn wrthlif.

Rhagwelir y byddai hyn yn cael effaith sylweddol ar y traffig yn ystod y gwaith adeiladu, yn lleol ac yn yr ardal ehangach, gan arwain at dagfeydd traffig ac oedi, ac at rywfaint o ail-lwybro traffig o’r A494 i lefydd eraill. A byddai hynny o bosibl yn arwain at tua dwy flynedd o darfu. At hynny, byddai’r gwaith adeiladu’n cael effaith niweidiol ar ansawdd yr aer ac yn creu sŵn. Ni fyddai’r opsiwn hwn yn arwain at fanteision eraill fel newid dulliau teithio, gwella diogelwch y ffyrdd, a gwella’r gallu i wrthsefyll llifogydd. Dyma fanteision sydd i’w cael o dan yr opsiynau ‘Gwneud rhywbeth’.

Gwneud rhywbeth

Cafodd rhestr hir ei llunio o 44 o opsiynau cychwynnol ar gyfer ymyrryd. Arfarnwyd yr opsiynau hyn wedyn i weld sut roedden nhw’n cyflawni amcanion y Cynllun ac yn ymateb i ystriaethau ym meysydd dylunio, peirianeg, llesiant a’r amgylchedd. At hynny, profwyd i weld sut roedd y rhain yn cyfrannu at amcanion Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. O’r rhestr hir o opsiynau i’w harfarnu, crëwyd rhestr fer o bum opsiwn a’i chyflwyno ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 9 Rhagfyr 2024 a 4 Mawrth 2025.

Yr Opsiwn sy’n Cael ei Ffafrio

Roedd yr adborth a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus yn dangos cefnogaeth gref i adnewyddu’r bont cyn gynted â phosibl. Ar sail canlyniadau arfarniad WelTAG a’r ymgynghoriad cyhoeddus, cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, Ken Skates, ar 6 Mehefin 2025 mai Opsiwn E (sy’n cael ei egluro ar y bwrdd nesaf) yw’r Opsiwn a Ffefrir. Cafodd y penderfyniad hwn ei lywio gan gost-effeithiolrwydd Opsiwn E, ei effeithiau amgylcheddol isel, a’i fanteision o ran dichonoldeb y gwaith adeiladu a’r gallu i’w gyflawni.

Identifying options

Through our understanding of the current issues and future challenges, we identified potential options which aim to deliver the Scheme objectives.

The Scheme options have been developed using WelTAG, which is the Welsh Government guidance on planning and appraisal for transport. WelTAG sets out a structured approach to planning projects that starts with exploring the case for change and moves through a series of logical steps in developing a project, delivering it and finally reviewing it afterwards. These steps include identifying objectives, narrowing down options and then developing a business case for the chosen option. It also involves monitoring and evaluating the project afterwards.

Do nothing

The ‘Do nothing’ option would result in a continuation of structural issues and the eventual deterioration of the River Dee Bridge. This would result in several negative impacts to the regional and national economy from disrupted strategic traffic flows, including freight, to and from north Wales.

The ‘Do nothing’ scenario would lead to weight restrictions, lane closures and potential full closure of the River Dee Bridge causing significant disruption, congestion and delay to the travelling public, businesses and freight.

Closing the A494 at the River Dee would create more traffic on other routes that would not be able to accommodate the extra traffic. This may have a negative impact on walking and cycling, have a bearing on road safety, air quality and noise pollution as well as disruption to public transport routes.



● Pont Afon Dyfrdwy’r A494 ar hyn o bryd: Yr olygfa o lan ddwyreiniol yr afon
● Current A494 River Dee Bridge: view from the eastern riverbank

Do minimum

The ‘Do minimum’ option would involve the renewal of the current bridge in-situ. This would involve the complete removal and reconstruction of the bridge deck, replacement works to the abutments and bridge approaches and repairs to the bridge beams and river piers.

To undertake the replacement work, the A494 would need to be closed completely to eastbound traffic for an extended period and westbound traffic limited to width and speed restrictions. There would then be a further extended period of traffic operating in single lane contraflow.

This is predicted to have a significant impact on traffic conditions during construction both locally and in the wider area resulting in traffic congestion, delays, and some traffic re-routing away from the A494 to alternative locations. Leading to an estimated two-year period of disruption. In addition, there would be negative air quality and noise impacts during construction. This option would not deliver on the added benefits such as modal shift, road safety improvements and flood resilience offered by the ‘Do something’ options.

Do something

An initial longlist of 44 intervention options was identified and then appraised on how they meet the Scheme objectives and design, engineering, wellbeing, and environmental considerations. In addition, they were tested on how they contribute towards the objectives of the Wales Transport Strategy. From the longlist of option appraisal, a shortlist of five options was identified and presented for a public consultation between 9 December 2024 and 4 March 2025.

Preferred option

Feedback received during the public consultation demonstrated strong support for the replacement of the bridge at the earliest opportunity. Based on the outcomes of the WelTAG appraisal and public consultation, Option E (explained on the next board) was confirmed as the Preferred Option by the Cabinet Secretary for Transport and North Wales, Ken Skates, on 6 June 2025. This decision was informed by Option E’s cost-effectiveness, low environmental impact, and advantages in terms of construction feasibility and deliverability.

Y cynllun arfaethedig



● Cynllun wedi'i symleiddio o'r Cynllun arfaethedig i ddisodli Pont Afon Dyfrdwy'r A494



● Argraff arlunydd o'r o'r Cynllun arfaethedig i ddisodli Pont Afon Dyfrdwy'r A494 yn edrych i Queensferry

Mae'r Cynllun arfaethedig (Opsiw'n E) yn cynnwys adeiladu pont newydd i gario dwy lôn o draffig i'r dwyrain a'r gorllewin ynghyd â llwybr cyd-ddefnyddio ar gyfer beicwyr a cherddwyr. Byddai'r bont newydd yn cael ei lleoli tua 15 metr i'r de-ddwyrain o Bont bresennol Afon Dyfrdwy ar yr A494, i gyfeiriad Caer. Disgwylir i'r gwaith adeiladu gael ei wneud oddi ar lwybr y briffordd bresennol, sy'n galluogi'r ffordd i aros ar agor yn ystod y rhan fwyaf o'r gwaith adeiladu.

Prif nodweddion y cynllun arfaethedig yw:


- Pont newydd** i gario dwy lôn o draffig i'r ddau gyfeiriad.
- Llwybr i'w rannu rhwng cerddwyr a beicwyr**, yn rhedeg ar hyd ochr dde-ddwyreiniol y gerbyttfordd orllewinol. Byddai hwn yn cysylltu â Llwybr Arfordir Cymru a llwybrau teithio llesol eraill yn yr ardal.
- Gwelliannau i'r A494 bresennol** dros bellter o tua 1.3km i gyd (0.4km y naill ochr i Afon Dyfrdwy), rhwng y groesfordd â Llinell Rheilffordd Arfordir Gogledd Cymru a Foxes Lane. Byddai hyn yn cynnwys cyflwyno llain galed newydd i'r ddau gyfeiriad gan gysylltu â'r lleiniau caled presennol, gwella'r aliniad a systemau draenio cynaliadwy.

- Cyffordd newydd** (i mewn ar y chwith ac allan ar y chwith yn unig) i'r de o'r afon sy'n cysylltu ardal Riverside â'r A494 ar ffurf debyg i'r un bresennol.
- Dargyfeirio 'Draen Queensferry' (un o brif afonydd Cyfoeth Naturiol Cymru)**, a saif ar ochr de-ddwyreiniol yr A494 ac sydd ar hyn o bryd yn llifo mewn cylfat oddi tani (rhwng yr A494 a hen Ddepo Sir y Fflint), ynghyd â'r sianel agored sy'n rhedeg yn gyfochrog â'r A494 o'r rheilffordd i Gyffordd bresennol Glan yr afon. Byddai rhannau newydd o sianel agored yn cael eu darparu bob ochr i'r rheilffordd gyda darn o'r geuffos bresennol o dan y rheilffordd yn cael ei gadw.

- Gorsaf bwmpio afon newydd a gollyngfa ddraenio i afon Dyfrdwy.**
- Gwaith gwella a lliniaru ym maes yr amgylchedd a bioamrywiaeth** gyda gwrthgloddiau ac ardaloedd o ystad feddal gan gynnwys creu lleiniau ymyl gyda blodau gwyllt, pantiau, coetiroedd brodorol a glaswelltir dymunol.
- Tynnu dec a thrawstiau'r hen bont gan adael y pileri cynnal yn yr afon.**



The proposed Scheme



● Simplified layout of the proposed Scheme to replace the A494 River Dee Bridge



● Artists' impression of the proposed Scheme to replace the A494 River Dee Bridge looking north towards Garden City

The proposed Scheme (Option E) consists of constructing a new bridge to carry two lanes of eastbound and westbound traffic and a shared use path for cyclists and pedestrians. The new bridge would be located approximately 15 metres to the southeast of the existing A494 River Dee Bridge, towards Chester. Construction works are proposed to take place 'offline' of the existing highway and allow the road to remain open during the majority of construction.

The key features of the proposed Scheme are:

1. **A new bridge** to carry two lanes of traffic in both directions.
2. **A new shared use path for pedestrians and cyclists**, running along the southeast side of the westbound carriageway. This would connect to the Wales Coast Path and other active travel routes in the area.
3. **Improvements to the existing A494** over a distance of approximately 1.3km in total (0.4km either side of the River Dee), between the intersection with the North Wales Coast Railway Line and Foxes Lane. This would include introducing a new hard shoulder in each direction connecting to the existing hard shoulders, alignment improvements and sustainable drainage systems.

4. **A new replacement junction (left in and left out only)** south of the river connecting the Riverside area with the A494 in a similar form to existing.
5. **Diversion of the Queensferry Drain (a Natural Resources Wales main river)**, which is situated on the southeast side of the A494 and currently flows in a culvert beneath it (between the A494 and the old Flintshire Depot), along with the open channel which runs parallel to the A494 from the railway line to the existing Riverside Junction. New sections of open channel would be provided either side of the railway with a section of existing culvert beneath the railway line being retained.

6. **A new river pumping station and drainage outfall to the River Dee.**
7. **Environmental mitigation and biodiversity enhancement works** with earthworks and areas of soft estate including wildflower verges, swales, native woodland plantations and amenity grassland.
8. **Removal of old bridge deck and beams leaving the in-river support piers.**

Y cynigion ar gyfer teithio llesol

Active travel proposals



● Argraff arlunydd o'r llwybr cyd-ddefnyddio Teithio Llesol arfaethedig ger cyffordd Riverside
● Artists' impression of the proposed Active Travel shared use path near Riverside Junction



● Argraff arlunydd o'r Cynllun arfaethedig gan edrych tua'r gogledd tuag at Garden City, gyda'r llwybr cyd-ddefnyddio Teithio Llesol arfaethedig wedi'i ddangos wrth ymyl y cerbyttffordd i'r gorllewin
● Artists' impression of the proposed Scheme looking north towards Garden City with the proposed Active Travel shared use path shown adjacent to the westbound carriageway

Mae newid dulliau teithio yn ganolog i'n polisi trafndiaeth. Mae newid dulliau teithio yn golygu dechrau teithio mewn ffyrdd mwy cynaliadwy, gyda llai o deithiau'n cael eu gwneud mewn ceir preifat a mwy o deithiau'n cael eu gwneud drwy ddulliau cynaliadwy fel defnyddio trafndiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio. Dyma un o brif amcanion Llwybr Newydd – Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021.

Bwriedir creu hyd at 3km o lwybrau cerdded a beicio newydd a gwell fel rhan o'r Cynllun, a chafodd y gwelliannau hyn eu cynnwys ar bob opsiwn a ystyriwyd. Mae'r gwelliannau arfaethedig yn cynnwys llwybr ar wahân ar gyfer beicwyr a cherddwyr, heb draffig moduron (ceir), dros Afon Dyfrdwy sy'n cysylltu â Llwybr Arfordir Cymru sydd yn y pen draw yn cysylltu â Foxes Lane a Claremount Avenue. I gyfeiriad Queensferry o Afon

Dyfrdwy, bydd y llwybr newydd yn rhedeg yn gyfochrog â'r A494 gan gysylltu â Chester Road East. Bwriedir creu llwybrau newydd a gwell hefyd i Station Road a Factory Road gan wneud y llwybr arfaethedig dros Afon Dyfrdwy yn hygyrch o bob cyfeiriad.

Bydd y llwybrau newydd yn creu cysylltiadau newydd, mwy diogel rhwng cymunedau, mannau o ddiddordeb a llefydd gwaith. Nod y llwybrau hyn fydd hwyluso opsiynau teithio amgen yn hytrach na defnyddio ceir ar deithiau lleol, a chreu cysylltiadau â Llwybr Arfordir Cymru a Llwybr Beicio Cenedlaethol 568 ar gyfer teithiau pellach.

Bydd y cynigion teithio llesol yn creu mwy o gyfleoedd i Gyngor Sir y Fflint ddarparu mwy o lwybrau teithio llesol yn y dyfodol, ac yn cyflymu'r broses o ddarparu dulliau teithio llesol yn yr ardaloedd cyfagos. Bydd llwybr di-draffig dros afon Dyfrdwy yn galluogi pobl a busnesau ar ddwy ochr yr afon i gysylltu â'i gilydd mewn ffordd fwy cynaliadwy.

At the heart of our transport policy is modal shift. Modal shift is the transition to more sustainable modes of transport, with fewer trips being made by private cars and more trips being made by sustainable modes such as using public transport, walking and cycling. This is a key objective for Llwybr Newydd – The Wales Transport Strategy 2021.

Up to 3km of new and improved walking and cycling routes are proposed as part of the Scheme, and these improvements were included on all options considered. The proposed improvements include a dedicated separate route for cyclists and pedestrians, free of motor traffic (cars), over the River Dee connecting to the Wales Coast Path which ultimately links to Foxes Lane and Claremount Avenue.

Towards Queensferry from River Dee a new route will run parallel to the A494 connecting with Chester Road East. New and improved links are also proposed to Station Road and Factory Road making the proposed over River Dee route accessible from all directions.

The new routes will provide safer new connections between communities and places of interest and works, facilitating alternative journey options to using cars for local journeys and for longer distance journeys with connections to the Wales Coast Path and National Cycle Route 568.

The active travel proposals will open up greater opportunities for Flintshire Council to deliver more active travel routes in future years and speed up delivery of active travel facilities in the surrounding areas. A traffic free route over the River Dee will allow people and businesses on both sides of the river to connect to one another more sustainably.



© 2025 Microsoft Corporation © 2025 Maxar © CNES (2025) Distribution Airbus DS






Llywodraeth Cymru
Welsh Government



A494 River Dee Bridge Replacement Proposed Scheme General Arrangement September 2025

- Key**
- Site boundary
 - Shared use path
 - Carriageway
 - Central reservation
 - Planting / soft estate (Refer to Environmental Master Plans for details)
 - Roadside grass verge
 - Footpath
 - Drainage channel / ditch
 - Construction compound / working area (temporary)
 - Maintenance access road / area
 - Gate
 - Culvert
 - Drainage headwall



Beth yw Gorchmynion drafft?

What are draft Orders?



Gorchmynion Drafft

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Gorchmynion drafft sy’n cynnwys y pwerau cyfreithiol i sefydlu priffyrdd newydd a’u haddasu, prynu tir a rhoi ar waith unrhyw hawliau eraill sydd eu hangen i gyflawni’r Cynllun. Mae’r Gorchmynion drafft yn ddogfen gyfreithiol, wedi’i hategu gan atodlenni, tablau a chyfres o gynlluniau. Bydd modd i chi ddod o hyd i gopiâu o’r dogfennau hyn ar wefan y prosiect, yn y lleoliadau adneuo a byddant yn cael eu cyflwyno yn yr arddangosfa Gorchmynion drafft. Mae’r Gorchmynion drafft yn cynnwys:

Dogfen	Beth mae hyn yn ei olygu
Gorchymyn Prynu Gorfodol Drafft	Mae’r rhain yn nodi’r tir sydd ei angen i adeiladu, cynnal a darparu’r mesurau lliniaru amgylcheddol sydd eu hangen ar gyfer y Cynllun. Mae’r ardal a ddangosir ar y cynlluniau’n cynnwys y tir sydd ei angen ar gyfer gwaith adeiladu dros dro a gwaith adeiladu parhaol.
Gorchymyn Llinell Drafft	Byddai’r Gorchymyn hwn yn awdurdodi creu’r adrannau newydd o’r Gefnffordd sy’n ofynnol fel rhan o’r cynllun ac yn awdurdodi Llywodraeth Cymru i adeiladu dros ddyfroedd mordwyol Afon Dyfrdwy.
Gorchymyn Ffordd Ymyl Drafft	Byddai’r Gorchymyn hwn yn awdurdodi’r newidiadau sydd eu hangen i briffyrdd lleol a mynedfeydd preifat. Mae’r rhain yn cynnwys cau, gwella neu newid rhai darnau presennol o ffyrdd, llwybrau troed, llwybrau beicio, cilffyrdd, llwybrau ceffylau neu fynedfeydd preifat, adeiladu priffyrdd newydd neu ddarparu ffyrdd mynediad preifat newydd. Mae’r cynlluniau’n dangos ffin y briffordd newydd. Mae’r ardaloedd sy’n cael eu newid yn cael eu dangos fel ardaloedd â chroeslinellau.

Cyhoeddir y Gorchmynion ar ffurf drafft ac maent yn rhoi cyfle i unrhyw berson neu sefydliad wrthwynebu, cefnogi neu awgrymu opsiynau eraill. Fel rhan o’r broses statudol, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried yr holl ymatebion i’r Gorchmynion drafft ac yna’n penderfynu a ddylid cynnal Ymchwiliad Cyhoeddus Lleol.

Mae’r Gorchymynion drafft a dogfennau ategol eraill ar gael i’w harchwilio gan y cyhoedd ar wefan y prosiect <https://llyw.cymru/a494-pont-afon-dyfrdwy>. Gellir eu harchwilio hefyd yn rhad ac am ddim yn y lleoliadau canlynol:

Lleoliad	Oriau agor
Llyfrgell Glannau Dyfrdwy, y Ganolfan Hamdden, Chester Road West, Queensferry, CH5 1SA	Dydd Llun i ddydd Gwener: 9.00am – 5.00pm Dydd Sadwrn: 9.00am – 1.30pm
Swyddfa Cyffordd Llandudno Llywodraeth Cymru, Sarn Mynach, Cyffordd Llandudno, LL31 9RZ	Dydd Llun i ddydd Gwener: 10:00am – 5:00pm Os hoffai rywun siarad ag un o gynrychiolwyr Llywodraeth Cymru ar y prosiect, rhaid gwneud apwyntiad o leiaf 3 diwrnod gwaith cyn yr ymweliad. I drefnu apwyntiad, e-bostiwch: A494RiverDeeBridgeConsultation@gov.wales .

Draft Orders

The Welsh Government are publishing draft Orders which comprise the legal powers to establish new and modify highways, purchase land and put in place any other rights needed to deliver the Scheme. The draft Orders are a legal document, supported by schedules, tables and a series of plans. You will be able to find copies of these documents on the project website, at the deposit locations and presented at the draft Orders exhibition. The draft Orders include:

Document	What this means
Draft Compulsory Purchase Order	These set out the land required to build, maintain and provide the environmental mitigation needed for the Scheme. The area shown on the plans includes both the land required for temporary and permanent construction works.
Draft Line Order	This Order would authorise the creation of the new sections of Trunk Road that are required as part of the scheme and authorise the Welsh Government to construct over the navigable waters of the River Dee the bridges.
Draft Side Road Order	This Order would authorise the changes needed to local highways and private means of access. These involve stopping up, improving or altering some lengths of existing roads, footpaths, cycle routes, byways, bridleways or private accesses; constructing new highways or providing new private means of access. The plans show the boundary of the new highway. The areas that are being altered are represented as hatched areas.

The Orders are published in draft and provide an opportunity for any person or organisation to object, support or suggest alternatives. As part of the Statutory process, the Welsh Government will consider all of the responses to the draft Orders and then decide whether to hold a Public Local Inquiry.

The draft Orders and other supporting documents are available for public inspection on the project website <https://gov.wales/a494-river-dee-bridge>. They may also be inspected free of charge at the following venues:

Venue	Opening hours
Deeside Library, Leisure Centre, Chester Road West, Queensferry, CH5 1SA	Monday – Friday: 9.00am – 5.00pm Saturday: 9.00am – 1.30pm
Welsh Government Llandudno Junction Office, Sarn Mynach, Llandudno Junction, LL31 9RZ	Monday – Friday: 10:00am – 5:00pm If anyone wishes to speak with a WG representative on the project, an appointment must be made at least 3 working days prior to a visit. To arrange an appointment, please email: A494RiverDeeBridgeConsultation@gov.wales .

Gwybodaeth Amgylcheddol

The Environmental Information



Gwybodaeth Amgylcheddol

Ochr yn ochr â'r Gorchmynion drafft, mae Gweinidogion Cymru hefyd yn cyhoeddi Datganiad i Hysbysu Asesiad Priodol (SIAA) a Datganiad Amgylcheddol (ES) ar gyfer y Cynllun.

Mae'r SIAA yn disgrifio effeithiau tebygol y cynllun ar Safleoedd Gwarchod Natur Rhyngwladol ac Ewropeaidd yn Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid (ACA) ac ACA Aber Afon Dyfrdwy.

Mae'r Datganiad Amgylcheddol yn adrodd ar ganfyddiadau Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (EIA) ac yn nodi'r prif effeithiau amgylcheddol a fyddai'n deillio o adeiladu'r Cynllun ac yn disgrifio'r mesurau arfaethedig i osgoi, unioni neu leihau unrhyw effeithiau niweidiol a darparu gwelliannau amgylcheddol lle bo hynny'n ymarferol.

Adroddir ar hyn yn:

- Crynodeb Annhechnegol (NTS) – trosolwg o'r adroddiad llawn.
- Cyfrol 1 – Adroddiad Asesiad Technegol.
- Cyfrol 2 – Ffigurau.
- Cyfrol 3 – Atodiadau Technegol.

Mae'r Datganiad Amgylcheddol yn ymdrin ag ystod eang o bynciau amgylcheddol a gwybodaeth am yr opsiynau amgen a ystyriwyd, y cyd-destun deddfwriaethol a pholisi, effeithiau cronrus a rheoli'r effeithiau amgylcheddol. Mae copi cyflawn o'r pynciau ar gael yn Atodiad NTS.

Mae set o Uwchgynlluniau Amgylcheddol (EMP) ar gyfer y cynllun hefyd yn cael eu cyhoeddi gyda'r Datganiad Amgylcheddol. Mae'r rhain yn dangos y mesurau lliniaru amgylcheddol sydd wedi'u hymgorffori yn nyluniad y Cynllun, gan gynnwys manylion y gwaith tirweddu arfaethedig a'r mesurau ar gyfer gwella bioamrywiaeth.

Gall unrhyw berson neu sefydliad roi sylwadau ar y dogfennau amgylcheddol hyn. Mae copïau caled ar gael yn y arddangosfa hon gyda chopi electronig ar gael yn <https://www.llyw.cymru/a494-pont-afon-dyfrdwy>.

Cyflwyno eich barn

Rhaid i unrhyw wrthwynebiadau gael eu cyflwyno'n ysgrifenedig i'r Gangen Gorchmynion yn y cyfeiriad isod neu drwy anfon e-bost at Trafnidiaeth.YGangenOrchmynion@llyw.cymru cyn **Dydd Mawrth 11 Tachwedd 2025**, gan ddefnyddio'r cyfeirnod qA2280938 a qA2282120 a nodi'r sail dros wrthwynebu.

Cangen Gorchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ

Cofiwch: Os ydych chi'n dymuno gwrthwynebu, cefnogi neu gyflwyno sylwadau, bydd eich gohebiaeth yn cael ei hystyried gan dîm y prosiect ac efallai y bydd angen i ni ymgynghori â phobl a sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cymru.

Cofiwch y dylid anfon pob gohebiaeth i gyrraedd y cyfeiriad uchod erbyn diwedd y cyfnod a nodir uchod fan bellaf.

The Environmental Information

Alongside the draft Orders, the Welsh Ministers are also publishing a Statement to Inform an Appropriate Assessment (SIAA) and an Environmental Statement (ES) for the Scheme.

The SIAA describes the likely effects of the scheme the International and European Nature Conservation Sites of the River Dee and Bala Lake Special Area of Conservation (SAC) and Dee Estuary SAC.

The ES reports the findings of an Environmental Impact Assessment (EIA) and identifies the main environmental effects that would result from the construction of the Scheme and describes the proposed measures to avoid, remedy or reduce any adverse effects and provide environmental enhancements where practicable.

It is reported in:

- Non-Technical Summary (NTS) – an overview of the full report.
- Volume 1 – Technical Assessment Report.
- Volume 2 – Figures.
- Volume 3 – Technical Appendices.

The ES covers a wide range of environmental topics and information about the alternatives considered, the legislative and policy context, cumulative effects and the management of the environmental effects. A full list of topics can be found in the NTS.

A set of Environmental Masterplans (EMPs) for the scheme are also published with the ES. These illustrate the environmental mitigation measures incorporated within the design of the Scheme, including details of the proposed landscape work and measures for biodiversity enhancement.

Any person or organisation may comment on these environmental documents. Hard copies are available at this exhibition with electronic copies available at <https://gov.wales/a494-river-dee-bridge>.

Submit your views

Any objections must be made in writing to the Orders Branch at the address below, or by email to transportordersbranch@gov.wales before **Tuesday 11 November 2025**, quoting reference number qA2280938 and qA2282120 and stating the grounds of objection.

Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ

Please note: Should you wish to object, support or make representations, your correspondence will be considered by the project team and we may need to consult with people and organisations outside of the Welsh Government.

Please note that all correspondence should be sent to arrive at the above address no later than the end of the period set out above.

Amserlen y Prosiect

Project Timetable



	Llinell amser	Gwaith
	Hydref 2025	Cyhoeddi Gorchmynion drafft Nodi'r tir sydd ei angen i adeiladu'r Cynllun, mesurau lliniaru amgylcheddol, mynedfeydd lleol a darparu Mynedfeydd Preifat.
	Hydref 2025	Ymgynghoriad ar y Gorchmynion Drafft Cewch gyfle i wrthwynebu neu gefnogi'r Cynllun yn ffurfiol neu awgrymu opsiwn arall. Bydd Ysgrifennydd y Cabinet yn ystyried natur a lefel y Gwrthwynebiadau wrth benderfynu a ddylid penodi Arolygydd annibynnol i archwilio'r cynigion yn fanwl.
	Gwanwyn/ Haf 2026	Ymchwiliad Cyhoeddus Os oes angen Ymchwiliad Cyhoeddus, byddai Arolygydd annibynnol yn clywed tystiolaeth, yn gyhoeddus, gan bartïon a rhanddeiliaid sydd â diddordeb. Byddai'r Arolygydd yn gwneud argymhelliad i Weinidogion Cymru ar sut i fwrw ymlaen.
	Haf 2026	Penderfyniad Gweinidogion Cymru i wneud y Gorchmynion Byddai Gweinidogion Cymru'n penderfynu a ddylid gwneud Gorchmynion a bwrw ymlaen â'r gwaith o adeiladu'r prosiect. Bydd hyn yn cynnwys penodi contractwr.
	Hydref 2026	Gwaith galluogi ar y safle (dyddiad cynharaf posibl) Byddai gwaith i adeiladu Pont newydd Afon Dyfrdwy yr A494 a'r gwelliannau cysylltiedig yn dechrau.
	Gwanwyn 2027	Dechrau'r prif waith adeiladu Bydd y gwaith i adeiladu rhan newydd y Gefnffordd yn dechrau.
	Hydref 2029	Y bont newydd yn agor (dyddiad cynharaf posib) Bydd y rhan gyfan o'r ffordd sydd wedi'i gwella ar agor i'r cyhoedd. Yna bydd y bont bresennol yn cael ei dymchwel.
	Gwanwyn 2030	Pont bresennol yr A494 dros Afon Dyfrdwy yn cael ei thynnu i lawr

	Timeline	Works
	Autumn 2025	Publication of draft Orders To set out the land required to build the Scheme, environmental mitigation, local accesses and provision of Private Means of Access.
	Autumn 2025	Draft Orders public consultation You will have the opportunity to formally object or support the Scheme or suggest an alternative. The Cabinet Secretary will take account of the nature and level of Objections in deciding whether to appoint an independent Inspector to examine the proposals in detail.
	Spring/ Summer 2026	Public Inquiry If a Public Inquiry is required, an independent Inspector would hear evidence, in public, from interested parties and stakeholders. The Inspector would make a recommendation to the Welsh Ministers on how to proceed.
	Summer 2026	Welsh Ministers decision to make the Orders The Welsh Ministers would decide whether to make Orders and to go ahead with the construction of the project. This will include appointing a contractor.
	Autumn 2026	Site enabling works (earliest possible date) Works to build the new A494 River Dee Bridge and associated improvements would start.
	Spring 2027	Start of main construction works Works to build the new section of Trunk Road will start.
	Autumn 2029	New bridge open (earliest possible date) The whole improved section of road will be open to the public. The existing river bridge will then be demolished.
	Spring 2030	Existing A494 River Dee Bridge removed